HUMPHREYS, neu HUMPHREYS-DEVONPORT, Syr SALUSBURY PRYCE (1778 - 1845), is-lyngesydd

Enw: Salusbury Pryce Humphreys
Dyddiad geni: 1778
Dyddiad marw: 1845
Priod: Maria Humphreys (née Devonport)
Rhiant: Mary Humphreys (née Pryce)
Rhiant: Evan Humphreys
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: is-lyngesydd
Maes gweithgaredd: Milwrol
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd Tachwedd 1778 yn fab i Evan Humphreys, rheithor Trefaldwyn a Clungunford, a'i wraig Mary, ferch Salusbury Pryce a fu'n rheithor Meifod am 53 mlynedd. Yr unig reswm dros gofio'r morwr hwn yw mai efe, pan oedd yn gapten y *Leopard* yn 1807, a gydiodd yn y llong ryfel Americanaidd *Chesapeake* - digwyddiad a fu'n achos ffrae fawr rhwng y ddwy wlad, a'i ddiswyddo yntau dros dro. Yn ddiweddarach, dyrchafwyd ef yn is-lyngesydd ac yn 1834 yn farchog. Ar ôl ei ail briodas, â Maria Devonport o sir Gaerlleon, y cymerth ' Devonport ' (yn 1838) yn gyfenw ychwanegol. Bu farw 15 Tachwedd 1845.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 60558490

Wikidata: Q7406310

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Jenkins, R. T., (1953). HUMPHREYS, neu HUMPHREYS-DEVONPORT, Syr SALUSBURY PRYCE (1778 - 1845), is-lyngesydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 12 Hyd 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-HUMP-PRY-1778

Copïo'r cyfeiriad

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government